

Cwrdd am unarddeg wrth gloc y pentref oedd y bwriad

Deffrodd Wali’n gynnar un bore Sadwrn, roedd am gwrdd ei ffrind wrth gloc y pentref am unarddeg. Roedd y wawr yn fendigedig a llenwodd yr ystafell gyda goleuni. Aeth i lawr y staer yn gynhyrfus, roedd ei fam wedi gwneud llond bowlen o uwd bendigedig iddo. Bwyttodd yn frwd am tua deg munud, yna mynd i weld beth oedd ar y newyddion. Gwelodd bod yna lifogydd mawr wedi gorchuddio rhan o’r Alban. Ar ôl hynny, mynd i ddweud bore da wrth ei frawd annwyl Dicw, a’i chwaer fywiog Aria. Roedd yn fore digon ymlaciol gan ei bod hi’n benwythnos. Ar fferm tu allan pentref Aberhosan roedd y teulu’n byw. Roedden nhw’n ffermio llawer o ddefaid ac ychydig o wartheg duon Cymreig.

Mae gan Wali lawer o ddiddordeb mewn ffermio yn wahanol i’w frawd. Bu allan yn aml yn helpu ei dad i hela’r anifeiliaid ac eu bwydo. Unwaith bu allan yng nghanol storm i weld os oedd y defaid yn ddiogel ar y mynydd. Bil ydy enw ci defaid Wali, mae’n gi ffyddlon iawn a bob amser yn gwrandao ar ei berchennog. Hefyd mae ganddo bump iâr. Wali adeiladodd gwt yr ieir, ond ar ôl tua pythefnos yn y gwynt a’r glaw, roedd y cwt wedi chwalu. Doedd neb yn synnu oherwydd ei fod yn adeiladwr mor sâl! Aeth yr ieir yn ofnus i gysgodi wrth felsen o wellt yn un o’r beudai, doedd gan Wali ddim syniad lle roedden nhw. Bu’n chwilio am hydoedd, yna clywodd o un iâr yn clochdar. “O lle ddaeth y sŵn ‘na?” Roedd Wali wedi cynhyrfu oherwydd doedd o ddim yn gwybod lle oedd y iâr. Ar ôl hanner awr o chwilio, o’r diwedd daeth o hyd i’r iâr, ac yna o’i hamgylch oedd y bedair arall. Teimlodd ryddhad mawr.

Ar ôl ymlacio yn y tŷ am ychydig, aeth allan i fwydo’r ci, yr ieir a’r gwartheg. Cerddodd at y cwt ieir, a gwelodd bod y drws ar agor. Yn ffodus doedd yr ieir heb a dianc, na bod y llwynog wedi bod heibio. Yna ar ôl eu bwydo, mynd i fwydo’r ci. Roedd Bil o hyd yn wên o glust i glust pan roedd o’n gweld ei berchennog yn dod gyda bowlen llawn o fwyd ci meddal, blasus iddo. Aeth Wali hefo Bil i weld rhai o’r defaid oedd yn y sied agosaf. Roedd rhai o’r defaid wedi cael eu hela oherwydd roeddent am gael eu cneifio, mis Mehefin oedd hi. Hoff adeg Wali ydy amser cneifio felly roedd yn edrych ymlaen. Wedyn aeth i weld y gwartheg oedd ar y caeau. Mae’r gwartheg sydd gennyn nhw’n rai cynghenid felly mae Wali’n gallu mwynhau mynd i’w gweld yn y caeau bron drwy’r flwyddyn.

Roedd hi’n nesau at hanner awr wedi deg y bore, pan ddechreuodd hi fwrw glaw. Roedd y glaw yn pistyllio o fewn pum munud. Doedd Wali ddim yn hapus gan ei fod angen cerdded at gloc y pentref erbyn unarddeg. Aeth fewn i’r tŷ’n gyflym i newid a pharatoi. Yn gyflym, roedd lefel

dwr yr afon yn tyfu, ac o fewn chwinciad chwannen, roedd y caeau i gyd o dan ddŵr! Beth oedd o'n mynd i wneud? Newidiodd Wali'n gyflym iawn, ond... roedd y dŵr wedi dod fyny at lefel y buarth, Mae Wali fel arfer yn mwynhau bod yn y glaw, yn ei ddillad dal dŵr ond heddiw roedd yna fôr o amgylch ei dŷ. Meddyliodd Wali, beth oedd o'n mynd i'w wneud?

Aeth y cloc yn ei flaen, tic toc, tic toc. Meddyliodd Wali y byse fo'n aros am ychydig bach nes bod hi'n stopio bwrw glaw. Arhosodd, arhosodd ac arhosodd. Doedd y glaw ddim yn stopio, roedd hi nawr yn hanner awr wedi unarddeg. Aeth Wali i nol ei ffôn symudol i ddweud wrth ei ffrind Bob, byse fo ddim yn gallu cwrdd wrth y cloc y bore hwnnw. Dechreuodd ysgrifennu, ond yna rhedodd fatri ei ffôn allan. "Dario!" meddai. Roedd Bob wedi dechrau cerdded at gloc y pentref ond trodd yn ôl oherwydd bod hi'n bwrw hen wragedd a ffyn.

Y prynhawn hwnnw, edrychodd Wali yn aml allan drwy ffenest y gegin i weld os oedd y glaw wedi peidio, ond roedd hi dal i arllwys. Erbyn hyn roedd pawb yn y gegin yn sgwrsio hefo'i gilydd. Roedd y teulu cyfan yn edrych ymlaen i weld y gêm rygbi oedd yn mynd i fod mlaen am un o'r gloch, ond cyn hynny roedd rhaid cael cinio. Dechreuodd ei fam baratoi'r pysgod a sglodion bendigedig, ond bron yn syth ar ôl iddi eu rhoi yn y popty, aeth y trydan i ffwrdd! Roedd Wali'n dechrau mynd hwyliau drwg rŵan, oherwydd doedd o ddim yn mynd i gael ei hoff ginio, na gwyllo ei hoff chwaraeon na cael mynd i gwrdd ei ffrind wrth gloc y pentref. "Pam heddiw mae'r llifogydd 'ma wedi dod?" cwynodd Wali'n flin fel llew heb fwyl.

Dydy Wali ddim yn hoffi pan mae rhaid iddo aros yn y tŷ drwy'r dydd, ond roedd rhaid iddo! Dechreuodd y dŵr ddod i mewn i'r tŷ'n gyflym a chwalodd y drws yn deilchion. Roedd pawb yn poeni rŵan oherwydd doedd dim golwg bod y glaw yn mynd i stopio. Meddyliodd Wali am y defaid, yr ieir, y gwartheg a Bil ei gi bach annwyl. Yn anffodus doedd dim byd all y teulu ei wneud.

Yn hwyrach yn y prynhawn, roedd pawb wedi cael digon o weld lefel y dŵr yn codi. Roedd tua troedfedd o ddŵr yn y tŷ erbyn tri o'r gloch. Aeth Dicw i'w lofft i ddarllen ei hoff lyfr, dyna oedd un o brif ddiddordebau Dicw, ond roedd Wali'n meddwl bod darllen yn wastraff amser. Doedd Wali ddim yn gwneud yn dda iawn yn yr ysgol, yn enwedig mewn tasgau darllen a deall oherwydd yn lle darllen y darn, roedd yn dyfalu'r atebion i gyd. Buodd Wali'n gorwedd ar ei wely am dipyn oherwydd doedd yna ddim byd arall i'w wneud. Am bedwar, edrychodd allan o ffenest ei ystafell wely a gweld bod popeth o dan ddŵr. Doedd neb lawr staer erbyn hyn oherwydd bod gymaint o ddŵr ar y llawr gwaelod.

Yn sydyn, pan oedd Wali'n myfyrion ar ei wely clywodd sŵn! Cododd i fyny ar unwaith i weld beth oedd yno. "Beth fyse fo'n gallu bod?" meddylodd Wali. Tu allan roedd Wali'n gallu gweld ei ffrind ar gwch! Roedd Bob wedi dod i weld os oedd ei ffrind gorau yn iawn yn y glaw oherwydd bod o heb glywed dim byd ganddo. Roedd Bob yn fachgen caredig, cwrtais a chyfeillgar. Doedd Wali ddim yn gwybod bod gan Bob gwch felly cafodd fraw. Ar ôl dod yr holl ffordd, roedd Bob eisiau helpu Wali, felly aeth Wali allan drwy ffenest ei lofft i'r cwch, ac i ffwrdd a nhw i ddod o hyd i'r defaid oedd ar y caeau. Roedden nhw am fynd a nhw i fyny i'r tir uwch. Yn rhyfeddol roedd y defaid i gyd wedi byw, a felly roedd gan y ddau ffrind lawer o waith cael nhw mlaen i'r cwch a'i symud i'r mynydd. Roedd y defaid yn nofio o amgylch y lle fel pethau gwirion oherwydd doedden nhw heb a gorfod trio mor galed erioed o'r blaen i aros uwchben y dŵr. Hefyd aeth Wali a Bob a bwyd i'r gwartheg llwglyd, ac i'r defaid oedd yn y sied.

Bu'n bwrw am llawer mwy o ddyddiau heb stopio. Ond yn ffodus bu Bob draw yn ei gwch bob dydd gyda ychydig o fwyd i bawb, a chwarae teg i Bob, edrychodd ar ôl y teulu'n wych! Ar ôl tua pythefnos, stopiodd hi fwrw ac o'r diwedd roedd y gwaith trwsio'n gallu dechrau. Daeth yr heulwen allan a mwynhaodd y ddau ffrind lawer mwy ar y cwch, na fyse nhw wedi cael wrth gwrdd ei gilydd wrth gloc y pentref.